- Agree a partnership in advance of our work programme being confirmed – this is impossible as we do not know what our financial allocation from WG will be until very late in the previous financial years, for 2022-23 for example, we had our final budget confirmed in February 2022.
- Not seek partnerships and spend the full allocation we have made for the project which is easier and provides certainty for starting and ending the project within the specified annual budget timeframe and spending the allocated amount within the same timescales

I also made the point that the Alignment Project, once rolled out will prevent the use of any surplus grant-in-aid (reserves) to help **“smooth out” my irregular expenditure** profile from year to year. In any one year, my costs will comprise annual core work (undertaken every year) plus additional statutory work undertaken less frequently (e.g. large formal reviews, statutory advice to Public Services Boards on their well-being assessments and plans, and the production of the quinquennial report).

Reserves have in the past also been held for the purpose of **statutory reviews or other more exceptional or unforeseen projects**. As this will no longer be permitted, I have been advised by Welsh Government Officials that we must seek additional resourcing from Welsh

Government if I want to conduct a review or any unforeseen additional project. **This clearly compromises the independence of Commissioners** and is not in the spirit of the purpose for which they are established.

On the question of independence, **it might be useful for the Committee to explore and make recommendations as to whether our independent offices should be funded by government or by parliament.**

I hope you will find this information helpful and look forward to reading your report when available.

Yours sincerely,



Sophie Howe

Future Generations Commissioner for Wales



Clerc y Senedd

Fay.Bowen@senedd.wales

31 Ionawr 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i gyfrannu ymateb i sylw'r Pwyllgor. Gwyddoch fy mod yn newydd i swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn fy mhenodi ar 9 Ionawr 2023. Yn ystod y cyfnod ymsefydlu rwyf wedi bod yn dysgu am waith y sefydliad. Mae'n glir i mi bod y sefydliad yn dilyn egwyddorion o wella parhaus ac yn chwilio am bob cyfle i sicrhau gwerth am arian.

Rwyf wedi canolbwyntio yn fy ymateb ar y trefniadau yn codi o broses alinio cyllidol a sefydlwyd cyn fy nyfodiad i'r swydd.

Pe bai'r Pwyllgor am ragor o wybodaeth gennyf rwy'n barod iawn i ddarparu rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i gyllido Comisiynwyr

Rolau a chyfrifoldebau

1.1 Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod y Comisiynydd wrth weithredu ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny rhaid i'r Comisiynydd weithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfluoedd eraill i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi sylw i:

- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy safonau'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny
- yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- a'r egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau canlynol:

- hybu cyfluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg
- cadw'r gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- llunio a chyhoeddi adroddiadau
- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- cyflwyno sylwadau i unrhyw berson
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
- rhoi cyngor i unrhyw berson.

Enghraifft o'r defnydd a wna Comisiynydd y Gymraeg o'r pwerau uchod yw rhoi cyngor a gwneud argymhellion er mwyn dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth.

Y tu hwnt i waith statudol, mae'r Comisiynydd yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg drwy weithio gyda busnesau ac elusennau i wella a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynghori ar ffurfiau wedi eu safoni ar enwau lleoedd.

Disgrifir trwch gwaith statudol y Comisiynydd yn Rhan 4 a 5 Mesur y Gymraeg. Yno nodir yn fanwl beth yw swyddogaethau gosod a gorfodi safonau'r Gymraeg. Amlinellir cwmpas y gwaith fel rôl sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Lle nad yw'r

sefydliadau a nodir yn atodlenni 5 – 8 Mesur y Gymraeg yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, bydd cyfran helaeth ohonynt yn gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg statudol. Mae grŵp o sefydliadau'n gweithredu cynlluniau iaith gwirfoddol, megis y sector tai. Mae ymchwilio i gwynion am fethiannau i gydymffurfio â safonau a dyfarnu ar achosion yn rhan o waith y Comisiynydd. Bydd Tribiwnlys y Gymraeg yn delio ag apeliadau yn erbyn dyfarniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau'r Gymraeg sy'n arwain at waith yn ymwneud ag amddiffyn dyfarniadau. Gall y Comisiynydd ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg fel nodir yn Rhan 6 Mesur y Gymraeg.

Y tu hwnt i brif drefn y Mesur, mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyhoeddi Adroddiad 5 Mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru a chaiff y Comisiynydd gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, sy'n gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i ddyblu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn cyfeirio at waith a rôl y Comisiynydd yn y strategaeth, yn benodol o ran:

- cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector, a
- chynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg

Ceir Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi ei gytuno rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru sy'n gytundeb fframwaith i amlinellu'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

1.2 Cymhariaeth cost wirioneddol cyflawni yn erbyn amcangyfrifon cost adeg sefydlu'r corff

Ar adeg cyflwyno Mesur y Gymraeg ar ffurf arfaethedig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gostau rhedeg ar gyfer y Comisiynydd yn Adran 8 ei Femorandwm Esboniadol. Yno noda mai £4.2m y flwyddyn oedd yn ofynnol. *".... yr amcangyfrif gorau o gostau rhedeg y strwythur y darperir ar ei gyfer gan y Mesur arfaethedig (yn seiliedig ar ffigurau 2009-10) yw £4.2m y flwyddyn"*

Yn ogystal â chostau rhedeg y sefydliad roedd y ffigwr uchod yn cynnwys costau'r Panel Cyngori (penodi aelodau a rhoi tâl cydnabyddiaeth iddynt). Roedd yn rhagweld costau newydd ynghlwm wrth swyddogaethau newydd gorfodi a heriau ymateb ag amddiffyn achosion Tribiwnlys y Gymraeg.

Yng nghyswllt costau staffio rhagwelwyd y byddai angen lefel cyfatebol i'r hyn oedd yng nghyflogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer gwneud y gwaith statudol:

"Rydym yn rhagweld y bydd angen yr adnoddau a ddefnyddir gan y Bwrdd ar hyn o bryd i gyflawni ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1993 ar y Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau".

Wrth bennu costau mewn perthynas â phwerau'r Comisiynydd i ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolyn, a chan fod ansicrwydd i ba raddau y byddai costau o'r math yn rhai blynyddol mae'r Llywodraeth yn dynodi'r angen i gadw gyllid wrth gefn:

"Byddai angen i'r Comisiynydd, felly, ddyrannu arian wrth gefn priodol o gostau rhedeg ei swyddfa".

Erbyn 2022 – 23, mae cyllideb a lefelau staffio Comisiynydd y Gymraeg wedi gostwng mewn ymateb i leihad yn y gyllideb ac nid oes modd gweithredu polisi defnydd o gronfa wrth gefn gyda'r rhyddid a fodolai ar adeg cyflwyno a chydysnio i Fesur y Gymraeg. Noder isod y gyllideb a ddyrannwyd a'r gwariant net cynhwysfawr ers sefydlu'r Comisiynydd ar 01/04/2012.

	Cyllideb Refeniw £000	Newid i'r gyllideb %	Gwariant Refeniw £000	Tanwariant (Gorwariant) £000	Cyllideb Cyfalaf £000	Gwariant Cyfalaf £000	Tanwariant (Gorwariant) £000
2012-13	4,100		3,565	535	-	99	(99)
2013-14	4,100	0.0	4,343	(243)	-	40	(40)
2014-15	3,690	-10.0	3,738	(48)	-	60	(60)
2015-16 ¹	3,540	-4.1	3,400	140	-	21	(21)
2016-17	3,051	-13.8	3,055	(4)	-	18	(18)
2017-18	3,051	0.0	3,249	(198)	-	35	(35)
2018-19 ²	3,074	+0.8	3,137	(63)	-	31	(31)
2019-20 ³	3,157	+2.7	3,093	64	-	109	(109)
2020-21 ⁴	3,207	+1.6	3,136	71	385	272	113
2021-22	3,207	0.0	3,172	35	256	165	91
2022-23 ⁵	3,207	0.0	3,207	0	245	245	0

¹ £150,000 ychwanegol yn y flwyddyn yn ymwneud â gwaith gosod safonau

² £23,000 i dalu am gyfnod cysgodi'r Comisiynydd newydd

³ £106,000 i'r gwaelodlin - cynnydd i gyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn

⁴ £50,000 i'r gwaelodlin - adlewyrchu cynnydd cyflogau

⁵ Cyllideb 2023-23

Bu lleihad sylweddol i gyllideb y sefydliad yn y 3 blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17. Yn dilyn hyn bu cyfnod o gyllideb sefydlog gyda chynnydd yn 2019-20 a 2020-21 ar gyfer gofynion penodol.

Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2012 ac Ebrill 2021 mae'r sefydliad wedi derbyn lleihad o £893,000 i'r gyllideb refeniw. Dros yr un cyfnod mae chwyddiant RPI wedi cynyddu 24.8%. Pe byddai cyllideb wreiddiol y sefydliad wedi ei chynyddu yn unol â chwyddiant byddai'r gyllideb yn £5,117,000 yn 2021-22. Felly mewn termau real byddai modd dadlau bod lefel cyllido'r sefydliad wedi'i herydu 37% dros y 10 mlynedd.

Dros y10 mlynedd mae costau cyflogau fel canran o wariant y sefydliad wedi cynyddu. Yn 2012-13 roedd 59% o'r gwariant ar gyflogaeth ac erbyn 2022-23 bydd hyn wedi cynyddu i 77%. Heblaw am y ddau achlysur y cyfeirir atynt uchod nid oes cynnydd i'r gyllideb wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r sefydliad i dalu am godiadau gyflog yn unol â setliad Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o gostau cyflogaeth swyddi ar y strwythur parhaol ym mis Rhagfyr 2022, gan gymharu'r costau ar y cyfraddau cyfredol gyda'r cyfraddau cyfatebol ym mlwyddyn ariannol 2012-13.

	2022-23 £000	%	2012-13 £'000	%
Cyflog Safonol	1,834	100.0	1,574	100.0
Yswiriant Gwladol	195	10.7	170	10.8
Pensiwn y Cyflogwr	504	27.5	303	19.2
	2,533	138.1	2,047	130.0

Gweler bod cost cyflogi'r staff wedi cynyddu rhyw £486,000 dros y ddeng mlynedd. Noder nad yw'r cynnydd yma yn cynnwys costau staff sydd wedi'u hepgor oherwydd lleihad yn y nifer staff oherwydd rhesymau fforddiadwyedd. Mae £337,000 oherwydd cynnydd i gyfraddau cyflog Llywodraeth Cymru, sy'n gynnydd o 16.5%. Derbyniwyd £50,000 yn 2020-21 at ddiben cynnydd i gostau cyflogaeth. Mae'r gweddill, sef £149,000 oherwydd cynnydd i gyfraniadau pensiwn y cyflogwr i gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Derbyniwyd cyllid ychwanegol o £106,000 yn 2019-20 i ariannu'r cynnydd hwn.

Adeg sefydlu'r corff roedd y strwythur staffio yn cynnwys 47 swydd (cywerth â llawn amser) yn ychwanegol i'r Comisiynydd. Oherwydd toriadau i'r gyllideb nid yw parhau â strwythur o 47 swydd wedi bod yn fforddiadwy. Mae swyddi wedi'u dileu ac mae oriau swyddi eraill wedi'i lleihau. Effaith hyn yw bod nifer y staff cywerth â llawn amser wedi lleihau i 42.8 cywerth â llawn amser (gan gynnwys y Gomisiynydd), ac mae hyn wedi cael effaith anochel ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

Gweler bod tanwariant sylweddol wedi bod ym mlwyddyn gyntaf y sefydliad. Arweiniodd hyn at gadw cronfa wrth gefn eithaf sylweddol. Yn y blynyddoedd dilynol defnyddiwyd y gronfa wrth gefn hon i ariannu gorwariant yn y blynyddoedd hyd 2018-19. Yn ddiweddar roedd polisi gan y Comisiynydd i gadw cronfa wrth gefn waelodol o £250,000 er mwyn ariannu unrhyw achosion cyfreithiol allasai godi ac unrhyw costau rhedeg anrhagweledig; oherwydd hyn bu lefel isel o danwariant yn y blynyddoedd diweddar.

Noder, ni chafwyd na chwaith wnaethpwyd cais am gyllideb cyfalaf penodol ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd 2019-20. Lle roedd gofyn am fuddsoddi mewn swyddfeydd, offer TG neu ddatblygu systemau, ariannwyd hyn o'r grant ariannol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhwng blwyddyn ariannol 2020-21 a 2022-23 derbyniwyd cyllideb cyfalaf benodol (gweler tabl uchod) i fuddsoddi a thrawsnewid systemau a gwasanaethau TG y sefydliad. Mae'r Comisiynydd yn gwneud ceisiadau penodol i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Amcangyfrif ar gyfer unrhyw ofynion cyllido a ystyrir yn gyfalaf o ran eu natur.

Ers mis Chwefror 2022 mae cyfundrefn gyllido newydd mewn bodolaeth yn dilyn dynodiad y Comisiynydd yn gorff Llywodraeth Ganolog dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Effaith hyn yw nad oes gan y Comisiynydd yr hawl i gadw arian wrth gefn o'r naill flwyddyn i'r llall a bod gwariant yn erbyn cyllidebau referniw a chyfalaf yn cael eu rheoli o fewn y flwyddyn. Gwneir sylwadau pellach am hyn isod.

Proses cymeradwyo'r gyllideb

1.3 Safbwyntiau ar broses y gyllideb gan gynnwys amserlen ac ymgysylltu

Mae adran 7, *Rheoli Arian Cyhoeddus* (Atodiad 1) yn gosod sylfaen gadarn yn ymwneud â'r berthynas rhwng y Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg. Ceir cyfeiriad penodol at Gomisiynydd y Gymraeg o fewn yr adran a gall fod yn bwysig i'r Pwyllgor roi sylw i statws unigryw'r Comisiynydd o fewn y trefniadau cyllidol dan sylw fel rhan o'r ymchwiliad hwn.

Yn hanesyddol mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno Amcangyfrif ysgrifenedig i Weinidogion Cymru ym mis Hydref cyn ddechrau'r flwyddyn ariannol. Eleni, mewn perthynas â chynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 mabwysiadwyd proses fwy ymgynghorol a chydweithredol gyda gweision sifil y Llywodraeth. Paratowyd a rhannwyd cynlluniau bras ym mis Gorffennaf a defnyddiwyd rhain i gael trafodaethau a sgysiau anffurfiol rhwng swyddogion y Comisiynydd a'r gweision sifil, er mwyn deall y gofynion cyllidebol. Hefyd, yn ystod mis Awst a Medi, gydag ansicrwydd yn yr hinsawdd economaidd a chynnydd sylweddol i chwyddiant, roedd cydweithio agos rhwng ein swyddogion a gweision sifil yn benodol gyda modelu senarios gwahanol mewn perthynas â chostau cyflogaeth.

Cyflwynwyd yr Amcangyfrif ffurfiol ar ddechrau mis Hydref, ond noder bod gweision sifil y Llywodraeth wedi derbyn yr wybodaeth drwy drafodaethau a phapurau yn y misoedd yn arwain at ei gyflwyno'n ffurfiol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y mabwysiadwyd y broses hon, byddwn yn ceisio cyfrannu at ddatblygu ar y broses dros y blynnyddoedd i ddod.

1.4 Proses i gytuno i addasiadau i'r Amcangyfrif

Dylid nodi mai'r broses mewn perthynas â'r Amcangyfrif yw bod gofyn yn unol â Mesur y Gymraeg i'r Comisiynydd gyflwyno Amcangyfrif i Weinidogion Cymru erbyn 31 Hydref cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi [Atodlen 1 Rhan 5 Paragraff 17(2)].

Gweinidogion Cymru sydd yn gosod yr Amcangyfrif gerbron Senedd Cymru. Gosodwyd yr amcangyfrif ar gyfer 2022-23 ar 23/03/2022, wedi i Senedd Cymru bleidleisio'n ffurfiol ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno.

Ers sefydlu'r Comisiynydd, nid yw'r Comisiynydd yn ymwybodol o addasiadau sydd wedi'u gwneud i'r Amcangyfrif wedi iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn dilyn yr arfer o gyllido'r Comisiynydd yn ddiodyn ar sail ei Amcangyfrif ond nid yw hyn yn arfer newydd yn sgil cyflwyno proses alinio cyllidol. Mae gwahaniaeth yn codi'n gyson rhwng y cais cyllidebol yn yr

Amcangyfrif a'r gyllideb y cytunwyd arni gan Senedd Cymru. Er bod gwahaniaeth, mae'r Comisiynydd y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn sy'n cydfynd â'r hyn sydd wedi ei osod yn y llythyr gan y Gweinidog sy'n cadarnhau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn ddiweddar mae'r arfer o drin y Comisiynwyr yn yr un ffordd a'i gilydd ar adeg cytuno cyllidebau wedi amlygu. Nid yw'n glir i Gomisiynydd y Gymraeg beth yw'r sail dros wneud hyn, ac yn bwysicach nid yw'n glir beth yw effaith ystyried cyllideb blynyddol y Comisiynwyr fel casgliad ar amrywiol ofynion Amcangyfrifon Comisiynwyr unigol. Mae pwynt pwysig yma oherwydd bod pob Comisiynydd yn gorff un dyn ac yn annibynnol - fel yr amlyga adran 7 Rheoli Arian Cyhoeddus.

Mae gohebiaeth swyddogol yn cadarnhau cyllid y Comisiynydd wedi cyrraedd yn hwyr iawn gan greu ansicrwydd wrth lunio cyllideb y flwyddyn ganlynol.

1.5 Newid i'r dull gweithredu 'Cyfnod y Llywodraeth' tra'n cydymffurfio â gofyniad i gyflwyno Amcangyfrif.

Nid yw'n ymddangos bod y Comisiynydd wedi derbyn gwybodaeth benodol ynghylch y mater hwn. Mae'n blaengynllunio ac yn pennu rhagolygon gan fod hynny'n arfer dda.

Cydweithio, gan gynnwys rhannu swyddogaethau a staff

1.6 Sicrhau arbedion drwy gydweithio

Mae'r Pwyllgor Cyfrifol Cyhoeddus wedi codi cwestiynau ynghylch rhannu adnoddau ar draws swyddfeydd y Comisiynwyr yn y gorffennol. Mae'r model o rannu adnoddau yn codi ei ben ar draws y sector cyhoeddus yn gyfnodol. Gall rhannu adnoddau arwain at brofiadau cadarnhaol a negyddol. Barn Comisiynydd y Gymraeg yw ei bod yn hanfodol ystyried yn ofalus beth yw buddion a'r traweffaith posibl o rannu adnoddau cyn gorbwyso'r manteision arbedion ariannol posibl. e.e. dylid ystyried i ba raddau y byddai rhannu adnoddau effeithio'n andwyol ar allu sefydliad i gyflawni ei briod swyddogaethau; y graddau mae adnoddau'r sefydliadau yn gymharus; ac a fyddai rhannu adnoddau yn werth am arian gwirioneddol ynghyd â sut byddai llwyddiant yn cael ei fesur.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae Comisiynydd y Gymraeg wedi, ac yn parhau i, gydweithio gyda'r Comisiynwyr eraill ac yn ehangach â chyrrff eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru lle mae'n briodol gwneud hynny.

- Mae swyddogion y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb ar gyfer materion cefnogi'r sefydliad yn mynychu ac yn cyfrannu at weithgareddau rhwydweithiau sy'n cyfarfod yn chwarterol. Mae'r rhwydweithiau yma yn ymwneud â materion, Cyllid, Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth. Mae cychoedd gwaith y rhwydweithiau yn cynnwys, cydweithio, rhannu arferion da, trafod materion cyfredol sy'n effeithio'r cyrrff ayb.
- Mae'r Comisiynydd wedi bod yn rhan o grŵp o gyrff sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredol. Allbwn y gwaith o strategaethau a chynlluniau pwrpasol ar draws nifer o sefydliadau, oherwydd y cyd-weithio a rhannu gwybodaeth.
- Daeth y Comisiynwyr ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghyd i dendro am gytundeb Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Mae'r cytundeb yma yn yr ail flwyddyn o'i bodolaeth.
- Gyda chymorth Adran Ystadau Llywodraeth Cymru, llwyddodd y Comisiynydd i is-osod gofod sbâr yn ei swyddfa yng Nghaerdydd i

Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Rhwng Ebrill 2016 a Rhagfyr 2018, pryd daeth y les i ben, arbedwyd £177,000 o arian y trethdalwr, drwy rannu gofod swyddfa.

- Bydd swyddogion polisi a chyfathrebu'r Comisiynwyr yn cwrdd yn rheolaidd, a bydd swyddogion hefyd yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth yn ôl y gofyn gyda'u cyfoedion yn y Comisiynwyr eraill. Bydd y trafodaethau a'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn anffurfiol dros e-bost neu Teams. Mae'r dull yma o weithredu yn digwydd yn aml ac yn enghraifft da ymarferol o gydweithio.
- O ran rhannu swyddogaethau 'cefn swyddfa' nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi gallu manteisio ar hyn. O ran manteisio ar adnoddau a gwasanaethau gan eraill, mae'n bwysig nodi bod Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.
- Mae'r Comisiynwyr eu hunain yn cwrdd, ochr yn ochr a'r Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn trafod eu rolau corff-un-dyn, a gwaith y sefydliadau.
- Mae Comisiynydd y Gymraeg yn aelod o Banel Cyngori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Ar lefel dydd i ddydd, mae swyddogion mewn cyswllt gyda'i gilydd yn trafod darnau gwaith penodedig os oes gorgyffwrdd yn codi
- Ceir perthynas statudol rhwng y Comisiynwyr ac Ombwdsmon yn adrannau 20 a 21 Mesur y Gymraeg sy'n cyfeirio at weithio cyfocrog mewn achosion.
- Mewn achosion llys teulu, mae Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Plant yn bersonau a ganiateir.

Mae'r Comisiynydd yn effro i gyfleon cydweithio, ond i wneud hynny'n effeithiol byddai gofyn sicrhau rhagor o gyllideb ar gyfer gwneud gwaith hyrwyddol a rhagweithiol.

Sefyllfa ariannol a heriau'r dyfodol

1.7 Asesiad o'r sefyllfa ariannol bresennol ac anghenion y dyfodol

Mae rhagolygon gwariant refeniw ar gyfer 2022-23 wedi bod yn heriol. Mae chwyddiant wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae lefel chwyddiant a rhagolygon ar gyfer y flwyddyn i ddod lawer uwch na'r rhagolygon pan ddyrannwyd cyllideb 2022-23.

Roedd cyllideb 2022-23 yn cynllunio bod 80% o wariant refeniw'r sefydliad ar gyflogaeth. Mae pwysau ar gostau byw wedi arwain at geisiadau gan undebau llafur am godiadau cyflog llawer uwch i ymateb i chwyddiant, a sicrhau nad yw gweithwyr yn dioddef toriad real yn eu cyflogau. Mae hyn wedi bod yn her, ac er nad yw'r sefyllfa gyllidol wedi caniatáu i'r Comisiynydd gwrdd â gofynion yr undebau llafur, mae'r Comisiynydd wedi gallu, drwy arbedion, dalu cynnig Llywodraeth Cymru o 4%, sef £50,000 yn fwy na'r swm y cynlluniwyd ar ei gyfer.

Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn neilltuo cyllideb referniw o £3,357,000 sydd yn gynnydd o £150,000 i'w chymharu â 2022-23. Croesewir y cynnydd er ei fod tua £50,000 yn llai na'r swm y gofynnwyd amdano yn yr Amcangyfrif. Disgwylir y bydd y pwysau i gynyddu cyflogau yn parhau yn y tymor canolig tra bo chwyddiant yn uwch na'r lefel hanesyddol, a bydd hyn yn her i'r sefydliad. Ond mae'r cynnydd yn gymorth i alluogi'r sefydliad i barhau i dalu staff ar delerau sy'n gyson â Llywodraeth Cymru.

Noder bod y sefydliad wedi gweithredu'n ddarbodus a sicrhau gwerth am arian gyda chyllid cyhoeddus. Yn ail flwyddyn weithredol y sefydliad roedd gwariant ar gostau gweinyddu yn £969,000. Erbyn blwyddyn ariannol 2022-23 mae'r gyllideb yn disgwyl mai £609,000 fydd y costau cyfatebol, sef lleihad o £360,000 (37%). Mae toriadau ariannol dros y blynyddoedd wedi gorfodi gwneud arbedion a sicrhau gwerth am arian. Dros y blynyddoedd y categorïau gwariant lle gwelwyd yr arbedion mwyaf arwyddocaol yw:

Swyddfeydd	£63,000	20%	lleihau'r ystâd
TG	£87,000	44%	buddsoddiad i drawsnewid yr isadeiledd
Hyfforddiant	£70,000	66%	llai o gyllid ar gael
Teithio	£97,000	80%	newid patrymau yn dilyn Covid-19

Bydd heriau yn parhau o ran gwariant ar weinyddu'r sefydliad. Y costau mwyaf sylweddol yw rheini mewn perthynas â swyddfeydd. Mae swyddfeydd bellach yn amsugno tua 42% o costau gweinyddu'r sefydliad. Gyda phatrymau gweithio wedi newid yn sylweddol wedi pandemig Covid-19 mae'r gofyn am ofod swyddfa ffisegol wedi lleihau'n sylweddol. Mae gan y sefydliad ymrwymïadau cyfreithiol ar ei lesioedd swyddfa, ond mae cynlluniau i leihau'r ystâd yn sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 pan fydd lesioedd yn terfynu neu gyfleoedd i dorri'r les yn codi. Mae Amcangyfrif 2023-24 yn nodi bydd prosiect yn cael ei weithredu yn ystod 2023-24 er mwyn cyflawni arbedion o rhyw £80,000 erbyn blwyddyn ariannol 2024-25.

Tu hwnt i'r arbedion mewn perthynas ag ystâd y swyddfeydd, prin yw'r cyfleoedd pellach i wneud arbedion ariannol. Y gwirionedd yw bod pwysau chwyddiant yn debygol o arwain at gynnydd i gostau rhedeg y sefydliad yn y tymor byr/canolig wrth i gyflenwyr geisio cynyddu eu prisiau.

Mae cwmpas gwaith y Comisiynydd yn eang ac yn cwmpasu gwaith statudol a hyrwyddol. Ar fwy nag un achlysur mae'r Comisiynydd wedi egluro yn ei Amcangyfrif bod ei allu i wneud gwaith hyrwyddol yn ddibynnol ar gyllid. O fewn cwmpas y gwaith statudol mae lle i hyrwyddo gyda rhai safonau strategol megis y strategaethau hybu 5 mlynedd. Byddai gwneud rhagor o waith yn y maes hwnnw yn cyfrannu at gyflawni strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg fel nodir yn Cymraeg 2050. Mae dyletswydd i sicrhau adnoddau digonol i ymateb yn briodol i faterion yn ymwneud â hawliau cyfreithiol defnyddwyr fel nad yw'r sefydliad dan risg o fethu gweithredu yn unol â bwriad y Mesur. Drwyddi draw, mae'r sefydliad yn gwneud gwaith sy'n dod â gwerth am arian i gymdeithas gan wneud gwahaniaeth i sefyllfa'r Gymraeg a'i defnyddwyr.

1.8 Effaith dynodiad y Comisiynydd yn gorff Llywodraeth Ganolog dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Dynodwyd Comisiynydd y Gymraeg fel corff Llywodraeth Ganolog ar 01/12/2021, a daeth y gorchymyn i rym ar 01/02/2022.

Effaith y gorchymyn yw bod newidiadau i sut mae cyllideb y Comisiynydd yn cael ei dyrannu a'i rheoli. Yn flaenorol, roedd Senedd Cymru yn cymeradwyo grant ariannol blynyddol, yn unol â Chyllideb Llywodraeth Cymru yn unig. Yn dilyn y gorchymyn mae'r sefydliad yn derbyn cyllideb ar gyfer y categorïau gwariant canlynol: Refeniw, Cyfalaf, a Symiau nad yn Arian Parod (dibrisiant).

Caiff gwariant y sefydliad ei reoli yn erbyn y categorïau hyn, ac nid oes gan y sefydliad hawl i wario mwy na'r hyn sydd wedi ei bleidleisio gan y Senedd, mae hyn yn unol ag egwyddor '*Parliamentary Supply*' o fewn fframwaith Rheoli Arian Cyhoeddus y DU. Os oes angen cyllid ychwanegol gan y Comisiynydd yn erbyn unrhyw un o'r categorïau mae'n ofynnol i'r Comisiynydd wneud cais i Lywodraeth Cymru drwy'r broses 'cyllideb atodol'. Yn flaenorol byddai'r Comisiynydd wedi gallu rheoli unrhyw ofynion gwariant ychwanegol o'r gronfa wrth gefn, ond dan y gyfundrefn newydd nid oes modd cadw cronfa wrth gefn at y dibenion hyn felly mae gallu'r Comisiynydd i reoli wedi ei gyfyngu.

Oblygiadau hyn yw, os bydd angen cyllid ychwanegol mae angen gwneud cais i Lywodraeth Cymru. Gallai sefyllfa godi lle bo angen i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad nau bod achos cyfreithiol sylweddol yn codi gyda Llywodraeth Cymru yn destun ymchwiliad neu yn barti i achos. Nododd Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynwyr eraill yr effaith y gallasai hyn ei gael ar ei hannibyniaeth lle bo angen gwneud cais am gyllid i'r corff sy'n destun ymchwiliad neu achos cyfreithiol. Nodwyd y gallai sefyllfa o wrthdaro godi pe byddai'r Llywodraeth yn gwrthod y cyllid i gynnal ymchwiliad neu achos cyfreithiol. Derbyniwyd ymateb gan y Llywodraeth, mai Gweinidog arall neu'r Prif Weinidog byddai'n dyfarnu ar y cais am gyllid ychwanegol, yn hytrach na'r Gweinidog sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i'r Comisiynydd. Hyd yma nid yw'r broses wedi ei phrofi.

Effaith arall o'r dynodiad yw bod cyfyngiad ar lefel yr arian parod y gall y Comisiynydd ei gadw. Caniateir i'r sefydliad gadw hyd at 5% o'r gyllideb flynyddol mewn arian parod (tua £175,000) ar ddiwedd unrhyw chwarter. Negodwyd canran uwch gan y Comisiynwyr na'r hyn a ganiateir yn gyffredinol, oherwydd byddai'r trothwy o 2% wedi cyfyngu hyn i £70,000. Byddai'r lefel is wedi achosi risgiau o fethu â thalu cyflenwyr a/neu staff pe byddai amgylchiadau yn codi yn effeithio ar amseru'r all-lif arian.

I grynhoi, ac sail profiad cynnar o weithredu'r drefn tybir bod y drefn newydd yn ei gwneud yn anodd i'r Comisiynydd bontio'r cyfnod rhwng diwedd a dechrau'r flwyddyn ariannol ganlynol, mae hynny oherwydd swyddogaethau penodedig Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r profiadau cynnar fel a ganlyn:

- Er bod trefniadau cyllidol newydd yn eu lle, a bod cyllid yn cael ei reoli gyda golwg ar beidio cario tanwariant drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gorfod gohebu gyda'r Llywodraeth yn gofyn am gael cadw tanwariant ar sail trefniant un-tro.
- Mae gallu rhagweld achosion Tribiwnlys y Gymraeg a rheoli'r gyllideb gyfreithiol yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ariannol hon wedi bod yn broblematic. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd gadw swm yn y gyllideb flynyddol ar gyfer gallu amddiffyn achosion cyfreithiol, fodd bynnag, pe na chyfyd achos, mae gan y Comisiynydd danwariant. e.e. Yn ail hanner Ionawr 2023, derbyniwyd gohebiaeth gan Dribiwnlys y Gymraeg yn rhaghsbysu'r

Comisiynydd o achos cyfreithiol posibl. Rhaid i'r Tribiwnlys ystyried pob cais ac yna rhoi gwybod i'r partïon beth yw ei benderfyniad: a fydd yn caniatáu achos neu beidio. Mewn sefyllfa fel hon, ac ar ddiwedd blwyddyn ariannol, mae gallu'r Comisiynydd i reoli'r gyllideb yn anodd, ac nid yw'n ymddangos bod y trefniadau cyllid, lle nad oes gallu i ddefnyddio cronfa wrth gefn ar gyfer tanwariant cyfreithiol, yn hwyluso gwaith y Comisiynydd.

- Mae'r Comisiynydd wedi gwneud sylw yn ystod proses sefydlu'r drefn at y gwrthdaro mewn cysylltiad â'r posibilrwydd o fod angen gofyn am gyllid ychwanegol er mwyn dwyn achos yn erbyn y Llywodraeth, a reoleiddir ganddo. Cafodd ymrwymiad ei roi, drwy lythyr, bod modd i Gomisiynydd y Gymraeg ofyn am gyllid gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid at ddibenion dwyn achosion cyfreithiol yn erbyn y Llywodraeth pe na bai digon o gyllid ganddo (yn absenoldeb cronfa wrth gefn), felly ymddengys bod cydnabyddiaeth o'r anawsterau. Nid oes proses eglur yn ei lle. Mae'r Comisiynydd mewn sefyllfa o ddibyniaeth lwyr ar y Llywodraeth pe bai angen cyllid i ddwyn achos yn ei erbyn: sefyllfa o sensitifrwydd gwirioneddol ar y ddwy ochr ond yn fwyaf heriol i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Mewn perthynas â'r broses o wneud ceisiadau i dynnu arian lawr, mae'r broses yn syml i'w chwblhau ac mae'r amser rhwng cyflwyno cais a derbyn yr arian yn gymharol fyr, ac ers i'r broses ddod i rym nid oes risg wedi codi o ddiffyg arian parod i dalu cyflenwyr na staff.

Rheoli Arian Cyhoeddus, Ionawr 2016

7.16.1 Ers iddi ddod i fodolaeth yn 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o Gomisiynwyr. Cafodd y rhain i gyd eu creu drwy ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig bod Grwpiau Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y ddeddfwriaeth benodol ar gyfer pob Comisiynydd wrth sefydlu'r trefniadau a fydd yn diffinio sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd, gan fod gwahaniaethau pwysig rhwng pob darn o ddeddfwriaeth.

7.16.2 Mae pob Comisiynydd yn eiriolwr ar ran y bobl neu'r meysydd polisi hynny y maent yn cynrychioli eu buddiannau. Yn hynny o beth, maent yn annibynnol ar y Llywodraeth a rhaid iddynt gael y rhyddid a'r disgresiwn i wneud gwaith ymchwil, trefnu ymweliadau ac ysgrifennu adroddiadau heb ofni y bydd eu gwaith yn effeithio ar eu cyllid. At hynny, mae rhai Comisiynwyr (megis Comisiynydd y Gymraeg) yn Rheoleiddwyr hefyd, a gallant fod yn ymchwilio i Lywodraeth Cymru ac yn gosod cosbau arni. Felly, mae'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr yn sylfaenol wahanol i'r berthynas sydd gan Lywodraeth Cymru â chategoriâu eraill o gyrff, megis Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru neu is-gwmnïau.

7.16.3 Er bod Comisiynwyr yn annibynnol o ran polisi a gweithredu, maent oll yn cael eu cyllido drwy arian cyhoeddus a ddarparir gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Comisiynydd yn Swyddog Cyfrifyddu, yn cael llythyrau Swyddogion Cyfrifyddu [gan Drysorlys Ei Mawrhydi] ac yn gorfod mynychu sesiynau hyfforddi priodol. Maent felly'n gyfrifol yn bersonol am reoli'r cyllid a ddyrennir iddynt. Rhaid i gyfrifon a threfniadau llywodraethu pob Comisiynydd fod yn destun archwilio mewnol, ac yn destun archwilio allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

7.16.4 Gan amlaf, mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu rolau'r Comisiynwyr yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflwyno Amcangyfrif o Gyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol i Weinidogion Cymru, sydd yn eu tro yn gorfod eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, mae gan Weinidogion a swyddogion rôl o ran sicrhau bod yr arian cyhoeddus a ddyrennir i Gomisiynwyr yn cael ei bennu ar lefel sy'n briodol iddynt allu gwneud eu gwaith, gan ofalu hefyd bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i lefel y craffu fod mor fanwl ag ar gyfer categorïau eraill o gyrff.

7.16.5 Dylai Grwpiau sy'n gyfrifol am ariannu Comisiynwyr sefydlu protocol neu Gytundeb Fframwaith a baratoir gyda'r Comisiynydd ac y cytunir arno gan y Comisiynydd. Er hynny, gall y cynnwys amrywio ar gyfer gwahanol Gomisiynwyr, gan ddibynnu ar eu rôl a maint eu cyllideb. Ym mhob achos, dylid ymgynghori ag Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru wrth baratoi dogfen o'r fath. Dylai pob dogfen o'r fath gael ei hadolygu bob tair blynedd o leiaf, ac o fewn tri mis i benodi Comisiynydd newydd.

7.16.6 Corfforaeth Undyn yw Comisiynwyr, ac nid ydynt felly'n atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr. Fodd bynnag, mae'n syniad da i bob Comisiynydd gael mynediad at gyngor annibynnol ar bolisi, ac i sefydlu Pwyllgorau Archwilio sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Er hynny, gall y trefniadau hyn amrywio ar gyfer gwahanol Gomisiynwyr oherwydd gwahaniaethau mewn deddfwriaeth".



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Ariannu Comisiynwyr

Cyflwyniad

Sefydlwyd rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn drwy'r Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, fel Corfforaeth Undyn. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r gwaith o gyflawni'r dyletswyddau statudol wedi'u breinio'n bersonol yn y Comisiynydd. Fel Corfforaeth Undyn, nid oes Bwrdd i'w gael, ac mae'r Comisiynydd yn bersonol gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad a'i adnoddau.

Mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sy'n adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r systemau sicrwydd yr wyf wedi'u rhoi ar waith i fodloni anghenion fy Swyddog Cyfrifo ac i adolygu uniondeb a dibynadwyedd y systemau hyn.

Roedd rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn annibynnol yn rôl nas gwelwyd ei bath o'r blaen. Dechreuodd y Comisiynydd cyntaf yn ei swydd ym mis Ebrill 2008, dechreuodd yr ail Gomisiynydd ym mis Mehefin 2012 a dechreuais innau yn fy nhymor pedair blynedd yn y swydd fel y trydydd Comisiynydd ym mis Awst 2018. Yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016, cymeradwyodd y Prif Weinidog fy nghais i ymestyn fy nghyfnod yn y swydd ddwy flynedd arall tan mis Awst 2024, ar ôl ymgynghori â phobl hŷn a rhanddeiliaid allweddol.

Caiff fy sefydliad ei ariannu gan Weinidogion Cymru, ond mae'n gweithredu'n annibynnol arnynt, ac fel Swyddog Cyfrifyddu rwy'n atebol i Senedd Cymru am ddefnyddio'r adnoddau a roddir imi.

Yn fy ymateb i'r cais am dystiolaeth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ynglŷn ag ariannu Comisiynwyr, rwy'n defnyddio fy mhrofiad fy hun yn ogystal â phrofiad y sefydliad cyn 2018, sy'n cynnwys yr ymateb yn 2015 i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2013/14.

1. Rolau a Chyfrifoldebau

Cwestiwn: Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau eich swyddfa, ynghyd â gwybodaeth am sut gallai'r rhain fod wedi newid dros amser, fel yr awgrymir gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn ei Adroddiad. A gafodd y cyfryw newidiadau unrhyw effaith ariannol a beth yw'r effeithiau hynny.

Fy Rôl

Fel Comisiynydd, rwy'n hyrwyddwr ac yn llais annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru. Ffocws fy ngwaith yw gwneud Cymru yn fan lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle caiff eu hawliau eu cadarnhau a lle na chaiff neb ei adael ar ôl, a chaiff fy ngwaith ei gyflawni drwy fy mlaenoriaethau fy hun, yn ogystal â'm gwaith ehangach i lywio polisïau, a chraffu ar weithredoedd a phenderfyniadau'r llywodraeth ar ran pobl hŷn.

Mae fy rhaglen waith yn seiliedig ar bedwar maes blaenoriaeth sy'n ymwneud â materion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru: amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, atal camdriniaeth yn erbyn pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

I sicrhau bod y gwaith a wnafr drwy fy rhaglen waith yn cael yr effaith orau bosibl, rwy'n defnyddio amrywiol ddulliau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion allweddol, rwy'n grymuso pobl hŷn, ac yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Er enghraifft, fel rhan o'm gwaith i warchod hawliau pobl hŷn, fe wnes i'n ddiweddar lansio arweiniad i hawliau mewn cartrefi gofal; cafodd ei ddsbarthu i bob cartref gofal yng Nghymru a chaiff ei rannu'n ehangach gan bartneriaid a rhanddeiliaid. Rwyf hefyd wedi defnyddio fy mhwerau cyfreithiol i gyflwyno arweiniad ffurfiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau drwy ddulliau heblaw am ddulliau digidol; yn ogystal rwyf wedi cynhyrchu taflen wybodaeth a ddsbarthwyd yn eang i helpu pobl hŷn i ddeall eu hawliau'n well wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Fel rhan o'm gwaith ar ragfarn ar sail oedran rwyf wedi cyflwyno hyfforddiant i bobl hŷn a gweithwyr proffesiynol i'w helpu i adnabod a herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran yn fwy effeithiol; yn ogystal rwyf wedi cyhoeddi canllawiau cyhoeddi ar gyfer newyddiadurwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar sut i osgoi rhagfarn ar sail oedran wrth ysgrifennu am bobl hŷn. Fe wnes i hefyd gyflwyno fy ymgyrch #EverydayAgeism i gynyddu ymwybyddiaeth o faint ac effaith rhagfarn ar sail oedran, ac i herio'r mythau a'r stereoteipiau am bobl hŷn sy'n arwain at wahaniaethu.

Mae fy ngwaith i atal camdriniaeth yn erbyn pobl hŷn wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar lenwi'r bwlch mawr mewn tystiolaeth a data sy'n ymwneud â phrofiadau pobl hŷn o gamdriniaeth, ac mae hyn wedi arwain at ddau brosiect ymchwil pwysig – mae'r cyntaf yn archwilio pa wasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n wynebu camdriniaeth ac mae'r ail yn canolbwyntio ar brofiadau dynion hŷn, lle mae ymchwil yn brin iawn. Ochr yn ochr â hyn, rwyf hefyd wedi llunio cyfeirlyfr ar-lein i gysylltu pobl hŷn â gwasanaethau cymorth a chefnogaeth, ac rwy'n gweithio gyda grŵp gweithredu o dros 30 o sefydliadau a sefydlais i gynyddu ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth ac adnoddau allweddol, a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Mae fy ngwaith i alluogi pawb i heneiddio'n dda wedi cynnwys bod yn aelod Cyswllt o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau sydd o Blaid Pobl Hŷn; mae hyn nid yn unig yn helpu i sicrhau bod yr arferion da yng Nghymru yn cael eu cydnabod ar lefel byd-eang, ond mae hefyd yn fy ngalluogi i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad holl bwysig i awdurdodau lleol ledled Cymru wrth iddynt lunio eu strategaethau a'u cynlluniau i sicrhau bod eu cymunedau eu hunain o blaid pobl hŷn i gefnogi eu ceisiadau

i ymuno â Rhwydwaith y WHO.

Ochr yn ochr â'r gwaith a gyflawnwyd yn erbyn fy mhedair blaenoriaeth, rwyf hefyd yn dal i graffu a dylanwadu ar weithredoedd a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod y polisi a'r ymarfer iawn ar waith er mwyn i bobl hŷn allu defnyddio'r cymorth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen, bod yn gallu cyfranogi yn ein cymunedau ac na chaiff neb ei adael ar ôl.

Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda Gweinidogion, swyddogion, Prif Weithredwyr ac unigolion allweddol eraill i godi'r materion sy'n peri pryder a datgan y camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau gwelliannau i bobl hŷn, yn ogystal â darparu tystiolaeth drwy bapurau briffio, ymatebion i ymgynghoriadau ac ymchwiliadau Pwyllgorau'r Senedd.

Mae ymgysylltu â phobl hŷn yn rhan holl bwysig o'm gwaith, ac rwy'n cynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd, yn ogystal ag yn cyfarfod â phobl hŷn mewn cymunedau ledled Cymru, i glywed yn uniongyrchol am eu pryderon, am unrhyw broblemau neu heriau maent yn eu hwynebu a'u safbwyntiau am y camau sy'n angenrheidiol er mwyn i bethau wella. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cynnwys sesiynau yn edrych ar faterion penodol megis yr argyfwng costau byw, mynediad i wasanaethau ac iechyd meddwl.

Fel Comisiynydd, rwyf hefyd yn darparu gwybodaeth a chymorth yn uniongyrchol i bobl hŷn a'u teuluoedd drwy gyfrwng fy Nhîm Cyngor a Chymorth. Mae'r ymholiadau a ddaw i law'r tîm yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion - gan gynnwys hawliau, iechyd a gofal cymdeithasol, camdriniaeth a diogelu, cyllid, tai, cymunedau, cludiant – ac mae llawer o'r achosion maent yn delio â nhw yn gymhleth iawn eu natur.

I gefnogi'r gwaith helaeth rwy'n ei gyflawni fel Comisiynydd – yn wir cipolwg ohono'n yn unig a welir uchod – y mae tîm bychan sy'n gweithio ar fy rhan ac sy'n meddu ar ystod eang o wybodaeth, sgiliau, arbenigedd a phrofiadau, ynghyd â dealltwriaeth unigryw o'r materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, sut maent yn cysylltu â'r tirlun polisi ac ymarfer yng Nghymru, a'r camau y mae angen eu cymryd i wneud y gwelliannau y mae pobl hŷn eisiau ac angen eu gweld.

Y Ddeddf

Caiff fy rôl a'm pwerau statudol fel Comisiynydd eu diffinio gan [Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn \(Cymru\) 2006](#) a'r Rheoliadau atodol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi imi nifer o bwerau cyfreithiol ac yn amlinellu'r camau rwy'n gallu eu cymryd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn (a ddiffinnir fel pobl dros 60 oed) yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo pan fo cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau a'r cymorth rwy'n gallu ei ddarparu yn uniongyrchol i bobl hŷn mewn sefyllfaoedd penodol.

Mae gennyf **bedair swyddogaeth statudol**:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny
- Annog pawb i roi cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a chael gwared ar unrhyw

- wahaniaethu yn eu herbyn
- Annog yr arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru
- Adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Pwerau Cyfreithiol

Mae gennyf nifer o bwerau cyfreithiol, wedi'u datgan yn y Ddeddf, i'm cynorthwyo wrth fy ngwaith i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru. Yn gryno, dyma nhw:

Adolygu sut caiff swyddogaethau eu cyflawni (Adolygiad Adran 3)

Gallwn adolygu'r ffordd y caiff buddiannau pobl hŷn eu diogelu a'u hyrwyddo pan fo cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, pan fônt yn bwriadu cyflawni eu swyddogaethau neu'n methu â chyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys rhai sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran cyrff cyhoeddus.

Os dewisaf gyhoeddi adroddiad ac argymhellion yn dilyn Adolygiad Adran 3, gallaf fynnu bod y cyrff dan sylw yn ymateb i'r argymhellion. Mae Rheoliadau 2007 yn nodi'r amserlen gyfreithiol a'r gofynion adrodd ar gyfer y math hwn o waith dilynol.

Adolygu trefniadau eiriol, chwythu'r chwiban neu gwyno (Adolygiad Adran 5)

Mae hwn yn debyg i Adolygiad Adran 3, ond mae'n canolbwyntio'n hytrach ar ba mor effeithiol y mae trefniadau cyrff penodol i ddelio ag eiriolaeth, chwythu'r chwiban a chwynion yn diogelu ac yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn perthnasol yng Nghymru.

Ar ôl cynnal y cyfryw adolygiad, fe allaf gyhoeddi adroddiad ac argymhellion a gallwn fynnu bod cyrff yn darparu gwybodaeth sy'n amlinellu sut maent yn cydymffurfio â'r argymhellion neu sy'n egluro pam na fyddant yn gwneud hynny. Gallai unrhyw achos o fethu â darparu'r cyfryw wybodaeth gael ei gyfeirio, drwy dystysgrif, i'r Uchel Lys.

Cymorth (Adran 8)

Gallwn helpu unigolyn sydd, neu a fu, yn unigolyn hŷn yng Nghymru i wneud cwyn am gyrrff cyhoeddus, neu gyflwyno sylwadau iddynt. Mae'r cymorth yn cynnwys cymorth ariannol neu drefnu i unigolyn gynghori, cynrychioli neu gynorthwyo person hŷn.

Archwiliad (Adran 10)

Gallwn archwilio achos person hŷn o safbwynt mater sy'n effeithio ar fuddiannau grŵp ehangach o bobl hŷn ac nid dim ond yr unigolyn dan sylw. Ar ôl gwneud archwiliad, rhaid imi lunio adroddiad a gallwn wneud argymhellion.

Cyhoeddi Arweiniad (Adran 12)

Gallwn lunio arweiniad ar yr arferion gorau o safbwynt unrhyw fater sy'n ymwneud â buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Rhaid imi gysylltu â'r cyfryw unigolion ag y credaf sy'n

briodol wrth gynhyrchu'r arweiniad.

Ar ôl cynhyrchu'r arweiniad, rhaid i gyrrff cyhoeddus a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau rheoledig roi ystyriaeth i'r arweiniad wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf a'u heffaith

Ers cyflwyno Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r rheoliadau atodol gerbron y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud pedwar diwygiad i naill ai ddiwygio'r Ddeddf neu'r rheoliadau atodol. Cafodd Memoranda Esboniadol eu cyflwyno i gyd-fynd â'r diwygiadau hyn neu cawsant eu gweithredu drwy Offerynnau Statudol.

- Diwygio Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2007 fel yr ystyriwyd yn briodol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwnaed y diwygiad hwn i sicrhau bod Rheoliadau Pobl Hŷn Cymru 2007 yn rhoi eglurder i nodi a yw'n berthnasol i'r Cynulliad fel a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; i Lywodraeth Cynulliad Cymru; i'r Cynulliad fel a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; Gweinidogion Cymru; Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol.

Nid yw'r diwygiad hwn wedi effeithio ar rolau a chyfrifoldebau fy swyddfa.

- Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) (Diwygio) 2016

Rwy'n 'berson rhagnodedig' ar gyfer materion sy'n ymwneud â hawliau a lles pobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallai gweithiwr gael gwarchodaeth fel Chwythwr Chwiban dan y Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd os datgelir mater wrthyf fi.

Nid yw'r Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd yn mynnu fy mod yn ymchwilio i bob datgeliad a ddaw i law. Ni allaf ond ymchwilio i ddatgeliadau sy'n syrthio o fewn cwmpas fy swyddogaethau statudol ac o fewn paramedrau fy mhwerau statudol.

Hyd yma, ni chefais ddim datgeliadau dan y Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd ac nid yw'n bosibl amcangyfrif yn gywir faint allai'r cais hwn am gyllid fod. Nid wyf felly yn cynnwys cyllideb ar gyfer unrhyw ymchwiliadau posibl yn fy Amcangyfrif ariannol. Yn ddibynnol ar yr adnoddau sy'n ofynnol i ymchwilio i ddatgeliad, gallai fod yn angenrheidiol cyflwyno cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

- Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio) 2016

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i'r Prif Weinidog ymestyn tymor y Comisiynydd, sydd yn nhymor cyntaf ei benodiad, am gyfnod o hyd at ddwy flynedd.

Mae'r Ddeddf yn datgan mai cyfnod swydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yw pedair blynedd. Mae'r Rheoliadau wedi'u diweddarau yn darparu i'r Prif Weinidog a'r Comisiynydd presennol y dewis i ymestyn y swydd am ddwy flynedd arall.

Tra bod yr estyniad hwn yn darparu i ddeilydd y swydd gyfle i aros yn y swydd am uchafswm o chwe mlynedd, nid yw'r rôl fodd bynnag yn cyd-fynd â thymor swydd saith mlynedd Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru na Chomisiynydd y Gymraeg.

- **Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021**

O ganlyniad i'r dynodiad hwn, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi symud at gyllideb adnoddau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Fframwaith Gwariant Cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Diben y dynodiad hwn yw cysoni'r gyllideb a ddefnyddia Trysorlys EM i reoli gwariant cyhoeddus, gyda'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau'r corff dynodedig yn cael eu cynnwys yn y Cynnig Cyllidebol a'r cyllidebau atodol a gymeradwyir gan y Senedd.

Cafodd y trawsnewid hwn effaith sylweddol ar fy sefydliad oherwydd na allaf mwyach ddefnyddio fy nghronfeydd wrth gefn heb fod Llywodraeth Cymru yn darparu'r gyllideb adnoddau gyfatebol. Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth am effaith y Gorchymyn hwn yn adran 5.

2. Costau cyflawni swyddogaethau o'u cymharu â'r amcangyfrifon

Cwestiwn: Sut mae costau gwirioneddol cyflawni eich swyddogaethau yn cymharu ag unrhyw amcangyfrifon a wnaed adeg sefydlu eich rôl (megis unrhyw amcangyfrifon a nodir yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gefnogi'r ddeddfwriaeth), gyda rhesymau i egluro unrhyw wahaniaethau (lle bo'n briodol).

Mae Gwerthusiad Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru – Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007¹ yn datgan y canlynol o safbwynt sefydlu swyddfa'r Comisiynydd:

“Amcangyfrifir bod costau sefydlu swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn £500,000, gyda chostau rhedeg o £1.5m yn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu. Caiff hyn ei ariannu o Linell Wariant Cyllideb y Strategaeth Pobl Hŷn yn Nyraniad Rhaglen Wariant Gwasanaethau Pobl Hŷn yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth a'r profiad o sefydlu a rhedeg swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, sydd â grŵp cleientiaid o faint tebyg.”

Yn 2008 ceid 674,300 o bobl ifanc, a ddiffinnir fel pobl ifanc sydd dan 18 oed. O'i gymharu, ceir 736,000 o bobl hŷn, a ddiffinnir fel pobl sydd dros 60 oed.

Dengys yr amcangyfrifon diweddaraf y ceir nawr 866,006 o bobl dros 60 oed yn byw yng Nghymru, sy'n gynydd o 17%. Amcangyfrifir y bydd y ffigur hwn yn codi i 956,000 erbyn 2026 (30% o'r boblogaeth).

Yn 2008, cyflwynwyd amlen gyllid tair blynedd o £5,000,000 i'r Comisiynydd, wedi'i dyrannu ar draws 2008/09 (£1,500,000), 2009/10 (£1,700,000) a 2010/11 (£1,800,000). Roedd hwn yn gyfle i gysoni'r cyllidebau i gyflawni'r cynllun strategol a chydabyddai y byddai rhai darnau o waith yn mynnu mwy o adnoddau nag eraill i'w cyflawni, ac fe allai hynny hefyd rychwantu blynyddoedd lluosog.

Cafodd yr £1,800,000 a ddarparwyd yn 2010/11 ei raddol leihau gan Lywodraeth Cymru i £1,715,000 erbyn 2015/16. Dros yr un cyfnod defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn y sefydliad ac felly fe wnaeth leihau o £741,000 i £104,000.

Mae cronfeydd wrth gefn yn chwarae rhan bwysig yn null rheoli ariannol cyffredinol sefydliad. Roeddent yn holl bwysig i reoli risg gan eu bod yn sicrhau parhad y busnes a'r gallu i gyflawni yn erbyn dyletswyddau statudol yn wyneb materion annisgwyl ac anrhagweladwy.

Ar ôl cyflwyno Amcangyfrif 2016/17 y Comisiynydd blaenorol, fe'i hysbyswyd, oherwydd effaith y cyni ariannol ar gyllidebau'r Llywodraeth Ganol a'r addasiadau dilynol i ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru, y byddai'r sefydliad yn cael toriad sylweddol o 10% yn ei gyllideb, gan arwain at ostyngiad mewn cyllid o £1,715,000 i £1,543,000. Arweiniodd y toriad hwn yn y gyllideb at adolygiad sylweddol o'r strwythurau a'r systemau gweithredu, a chafodd hynny effaith aruthrol ar y sefydliad, gan leihau nifer y staff yn y pendraw o 30 i 23 – syrthiodd y costau staff cysylltiedig o £1,201,000 i £1,017,000.

O 2016/17 ymlaen, arhosodd cyllideb sylfaenol y Comisiynydd ar £1,543,000, hyd at Brisiad Cynllun pum mlynedd Swyddfa'r Cabinet yn 2018. Arweiniodd yr ail-brisiad hwn at gynydd o 7.9% yn y cyfraniadau pensiwn cyflogwr cyfartalog (o ffigur cyfartalog o 21.1% i 28.0%). I gydnabod yr effaith sylweddol y cafodd yr ail-brisiad hwn ar y sector cyhoeddus oherwydd y costau pensiwn cyflogwr ychwanegol, darparodd y Trysorlys gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, darparwyd imi £46,000 yn ychwanegol mewn ymateb i'r pwysau hwn ar gyllid a daeth fy nghyllideb sylfaenol yn £1,589,000.

Rhwng 2016 a 2021, mae cyllideb wastad wedi cael ei rheoli'n effeithiol. Rwyf wedi sicrhau fy mod wedi gallu amsugno costau cynyddol dros y blynyddoedd hyn drwy wneud penderfyniadau a defnyddio dulliau rheoli ariannol darbodus, sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy gaffael yn effeithiol a defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i'r eithaf.

Yn 2021, tynnais sylw fy is-adran noddi a'r Gweinidog at bwysau costau sylweddol, gan ddweud nad oedd hi mwyach yn bosibl i'm cyllideb beidio â chael ei hadolygu a'i chynnyddu. Roedd y pwysau hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau staff oherwydd dyfarniadau costau byw a chynnydd cynyddrannol mewn bandiau yn hytrach na chynnydd yn nifer y gweithwyr (er 2017 mae'r WTE wedi bod ar ffigur cyfartalog o 20.45 ac mae ar 20.86 ar hyn o bryd) neu oherwydd cynnydd yng nghostau cyflogau canolrifol y sefydliad. Mae fy adroddiadau blynyddol archwiliedig yn dangos bod cyflog canolrifol y sefydliad wedi cynyddu'n bennaf oherwydd dyfarniadau costau byw.

Bu'r cynnydd eraill mewn costau yn fwy penodol megis cynnal a gwella seibergadernid y sefydliad. Dros y tair blynedd diwethaf, disgwyliwyd imi, fel pob corff cyhoeddus arall, fuddsoddi yn seibergadernid fy sefydliad a'i wella. Mae gwariant yn y maes hwn felly wedi cynyddu o £20,000 yn 2010/11 i £87,000 yn 2022/23. Mae'r Gwariant ar TG yn cynnwys gwaith cymorth a chynnal a chadw systemau (sydd ar gontract allanol ar gost o £12,000 y flwyddyn), cydymffurfiaeth TG e.e. Ardystiad Cyber Essential Plus, profi seibergadernid y sefydliad, hyfforddiant, trwyddedau TG a chymorth cysylltiedig, a chaledwedd. Bydd y lefel wariant hon yn barhaus i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn seibergadarn.

Dros y flwyddyn diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y cyllid a ddarparwyd i'm swydd yn annigonol a darparwyd imi gyllid eithriadol ychwanegol yn

2022/23 o £67,000 ac mae wedi cynyddu fy nghyllideb sylfaenol o 2023/24 ymlaen i £1,684,000.

Pe byddai'r amcangyfrifon costau a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru yn 2008 ar gyfer rhedeg fy swyddfa yn effeithiol wedi dilyn chwyddiant, byddai fy nghyllid sylfaenol ar gyfer 2023/24 yn awr yn £2,238,000, sy'n £554,000 neu'n 38% yn fwy na fy nghyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24.

3. Proses cymeradwyo cyllidebau

Cwestiwn: *Safbwyntiau ar y broses gyllidebau, gan gynnwys amserlenni ac ymgysylltu â Gweinidogion Cymru a swyddogion, megis y rhai mewn Timau Partneriaeth (noddwyr) yn adrannau Llywodraeth Cymru. A yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw wybodaeth cyn ichi gyflwyno eich amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn nesaf, megis asesiad gorau Llywodraeth Cymru o'r lefel cyllid a fydd ar gael i'r dyfodol a ffactorau i roi ystyriaeth iddynt wrth baratoi'r amcangyfrif.*

Fel Comisiynydd, myfi yw'r Swyddog Cyfrifo, ac mae gofyn imi felly gyflwyno cyllideb refeniw flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru dan baragraff 9(2) o Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf) erbyn 31 Hydref cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Amcangyfrif yn datgan y gwariant amcangyfrifedig ar sail adnoddau, gan amlygu cyllidebau anariannol megis dibrisiant, a'r cyllid ariannol y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn imi gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Rhwng 2019 a 2021 cyflwynodd Llywodraeth Cymru rybudd y dylwn gyflwyno fy Amcangyfrifon ar sail parhad o'r gyllideb wastad h.y. £1,589,000. I ddechrau, er yn anodd, roedd yn bosibl ymdrin â chyllideb wastad drwy ddulliau rheoli ariannol darbodus, a oedd yn golygu nodi lle gellid arbed costau. Fodd bynnag, cafodd y pandemig effaith sylweddol ar y gyllideb roeddwn wedi'i neilltuo ar gyfer fy rhaglen waith oherwydd roedd angen i waith fy sefydliad esblygu er mwyn bod yn fwy ymatebol o ganlyniad i'r amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld. Mae gwariant wedi dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig wrth i fy nhîm a minnau ganolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau yn fy nghynllun strategol wedi'i adnewyddu a delio â'r heriau newydd sy'n wynebu pobl hŷn.

Yn ystod rhan olaf 2021, hysbyswyd swyddogion Llywodraeth Cymru na fyddai'n gynaliadwy mwyach i'm cyllideb ar gyfer 2022/23 beidio â chael ei chynyddu. Felly, oherwydd pwysau costau parhaus sylweddol, gofynnais yn fy Amcangyfrif ar gyfer 2022/23, i'm cyllideb sylfaenol gael ei chynyddu £74,000 i £1,674,000 gan egluro, os na ddarparwyd y cyllid ychwanegol imi, y byddwn yn cael fy ngorfodi i adolygu a lleihau nifer y staff rwy'n eu cyflogi, a byddai hynny wedi cael effaith fawr ar fy ngallu i gyflawni gwaith holl bwysig i bobl hŷn. Byddai ad-drefnu sefydliadol, ynghyd â cholli swyddi, wedi bod yn broses drafferthus a fyddai wedi mynd â llawer iawn o amser. Byddai wedi ansefydlogi'r sefydliad, wedi arwain at fod staff ymroddedig ac arbenigol wedi colli ei swyddi, ac wedi achosi pryder ac ansicrwydd i'r tîm staff cyfan.

Ym mis Rhagfyr 2021, fe'm hysbyswyd na fyddwn yn cael y cyllid ychwanegol y gofynnais amdano. Ni chefais yn yr ymateb i'n Hamcangyfrif eglurhad manwl a fyfyrtais ar fy Amcangyfrif nac ychwaith eglurhad ynglŷn â'r broses ar gyfer gwneud y penderfyniad. Ym mis Ionawr 2022, ysgrifennais at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn ailadrodd y byddai'n rhaid imi, heb y cyllid y gofynnwyd amdano, ad-drefnu'r sefydliad neu ailasesu fy ymrwymadau a'm blaenoriaethau gwaith. Er enghraifft, ni fyddai fy nhîm wedi gallu

ymrwymo amser i holl weithgorau Llywodraeth Cymru y gofynnir inni gyfrannu iddynt a byddai'n rhaid inni fod wedi tynnu'n ôl o feysydd gwaith penodol, a byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrhad y byddwn yn gallu gofyn am gyllid ar gyfer darnau penodol o waith, byddai parhau â chyllideb wastad wedi cael effaith uniongyrchol ar fy annibyniaeth. Y rheswm am hyn oedd gan fod fy holl gyllideb wedi ei hymrwymo dan gontract (gan gynnwys costau staff) neu wedi ei hymrwymo i safonau cydymffurfiaeth neu reoleiddio ynghyd â gorbenion eraill. Roedd y gyllideb, felly, yn annigonol ar gyfer fy rhaglen waith.

Byddai parhau â chyllideb wastad wedi arwain at geisiadau am gyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru i'm galluogi i ariannu pob darn o waith. Byddai'r ceisiadau hyn yn golygu bod yn rhaid imi geisio cymeradwyaeth gychwynnol gan fy is-adran noddi cyn cael cymeradwyaeth Weinidogol yn y pendraw, ac nid oedd hyn yn ffordd briodol na chynaliadwy o weithio.

Ymatebodd y Gweinidog i'm pryderon ym mis Chwefror 2022 a chytunodd i ddarparu cyllid ychwanegol o £67,000 ar gyfer 2022/23.

Rwy'n credu, mewn cydnabyddiaeth o'r anawsterau a wynebwyd yn ystod y broses o gyflwyno Amcangyfrif 2022/23, ym mis Mai 2022, fe wnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gynnig newid i'r broses gyllidebu a gofyn i Gomisiynwyr gyflwyno fersiwn ddrafft o gyllideb y flwyddyn wedyn er mwyn cysoni ein proses gyllidebu â phroses cynllunio ariannol Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fyfyrion ar bwysau costau'r Comisiynydd a bod yn fwy parod i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy gwybodus ynglŷn â chyllidebau'r Comisiynydd.

Croesewais gynnig y Gweinidog am ddull cydweithredol ac am y cyfle i gael trafodaethau amserol ynglŷn â dyraniadau cyllidebau i'r dyfodol gyda'r Gweinidog a swyddogion yn fy is-adran noddi.

Fe'm gwahoddwyd i gyflwyno fy nghyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 ym mis Awst 2022. Er na wnaeth Llywodraeth Cymru gyfyngu ar fy nghais am gyllideb a darparu cyllideb ddangosol, fe'm hysbyswyd y "bydd y sector cyhoeddus yn dal i wynebu pwysau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf wrth inni ddal i ddod dros y pandemig ac wrth iddo ymateb i'r argyfwng costau byw yn ogystal ag i'r argyfwng yn Wcraïn. Bydd, felly, yn dal yn bwysig bod cyllid cyhoeddus pwysig yn cael ei gyfeirio lle mae mwyaf ei angen, a'n bod yn cael y gwerth gorau am yr arian hwnnw gan sicrhau ein bod yn bodloni ein hachos cyffredin sef gwneud i arian y trethdalwr fynd ymhellach."

Roedd fy nghais am gyllid felly yn adlewyrchu'r pwysau macro-economaidd ar gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru ac ym mis Awst 2022, fel y gofynnwyd, cyflwynais gyllideb ddrafft yn dangos bod angen i'm cyllideb sylfaenol gael ei chynyddu i £1,690,000. Darparodd Llywodraeth Cymru £1,684,000.

Yn ogystal â'r gyllideb ddrafft, cyflwynais hefyd fy Amcangyfrif ffurfiol ym mis Hydref 2022. Yn anffodus, nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gadarnhau eu bod wedi cydnabod y pwysau parhaus ar fy nghyllideb, a'u bod yn bwriadu cynyddu fy nghyllideb sylfaenol, tan fis Rhagfyr 2022.

Gan fy mod wedi cyflwyno fy nghyllideb gychwynnol ym mis Awst 2022, byddwn wedi disgwyl i Lywodraeth Cymru fod wedi bod mewn sefyllfa i ddarparu rhybudd o gyllideb ddangosol yn gynharach na mis Rhagfyr. Rwy'n derbyn, fodd bynnag, y byddai'r rhybudd cynnar hwn wedi cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru a oedd yn dal i aros am gadarnhad o ddyraniad eu cyllideb oddi wrth y Llywodraeth Ganol. Y perygl mawr gyda'r hysbysiad hwn yw pe byddwn, i'r dyfodol, yn cael toriad i'm cyllideb sylfaenol, y byddwn yn cael fy ngorfodi i ad-drefnu fy sefydliad yn ystod misoedd ofal y flwyddyn ariannol, gan mai costau staff sydd i gyfrif am 79% o'm costau cyffredinol.

Er mwyn gallu cyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn yn sgil ad-drefnu sefydliadol, mae'n holl bwysig bod unrhyw arbedion yn digwydd mor fuan â phosibl. Ceir risg sylweddol, os na ddaw hysbysiad o doriad mewn cyllideb i law tan y mis Rhagfyr, mae'n bosibl na fydd y strwythur sefydliadol newydd yn cael ei gwblhau, ac na fyddai'r arbedion cysylltiedig yn cael eu cyflawni tan y mis Gorffennaf dilynol. Mae felly'n hanfodol fy mod yn cael rhybudd o hyn cyn gynted â phosibl ymlaen llaw.

Yn dilyn cam ymgynghori Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrrff Dynodedig) 2021, mae cyfathrebu ariannol â Llywodraeth Cymru wedi gwella oherwydd mae fy Mhennaeth Cyllid ac Adnoddau wedi datblygu perthnasoedd gwaith gyda fy Adran Noddedig a thimau Cyllid Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgysylltiad hwn drwy gydol y flwyddyn yn fy ngalluogi i reoli unrhyw amrywiadau cyllidebol a ragwelir ac yn rhoi cyfle i drafod risgiau gweithredol posib, fel cyflogi pobl yn lle aelodau allweddol o staff sy'n absennol am gyfnodau hir. Yn flaenorol, mae fy nghronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio i reoli risgiau gweithredol yn barhaus.

Mae'r broses gynllunio ariannol bresennol rhwng fy is-adran noddï a minnau yn dal i fod yn ffordd gymharol newydd o weithio, ac rwy'n rhagweld y bydd hon yn dal i ddatblygu wrth inni wynebu heriau newydd.

Addasiadau i'r Amcangyfrif

Cwestiwn: Pa broses sydd ar waith i gytuno ar unrhyw addasiadau i'r amcangyfrif. Sut caiff y rhain eu datgan a sut y cytunir arnynt. Pa mor sylweddol a fuont a pha effaith a gawsant ar waith eich swyddfa, ac ar y cynlluniau ar ei chyfer.

Dair gwaith, nid yw'r cyllid y gofynnwyd amdano yn yr Amcangyfrif wedi dod i law:

- Yn Amcangyfrif 2011/12, cafwyd toriad o 3% i'r gyllideb. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Amcangyfrif newydd gael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2011. Fe wnaeth y Comisiynydd adolygu'r meysydd gwariant a drefnwyd a chanfod arbedion o 3%.
- Yn Amcangyfrif 2016/17, cafwyd toriad o 10% i'r gyllideb. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Amcangyfrif newydd gael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2016 i adlewyrchu'r gyllideb lai. Cafodd hyn effaith sylweddol ar y sefydliad, mae'r manylion i'w gweld yn adran 2.
- Amcangyfrif 2022/23, pan lwyddais i dreiglo ymlaen £67,000 o arian yn ychwanegol i'w ddefnyddio yn 2022/23. Y tro hwn ni ofynnwyd imi ailgyflwyno fy Amcangyfrif.

Nid wyf fi wedi cael gwybod am broses / gofyniad ffurfiol ynglŷn ag addasu Amcangyfrifon a gyflwynir.

Addasiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn

Rhwng 2008 a Mawrth 2022, llwyddom i gadw'r cronfeydd wrth gefn a'u rheoli'n annibynnol. Fe wnaeth y cronfeydd wrth gefn hyn chwarae rhan holl bwysig yn fy null rheoli ariannol cyffredinol a buont yn holl bwysig i gynnal fy annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru ac i gyflwyno fy Nghynllun Strategol yn llwyddiannus. Fe wnaethant fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol, sicrhau parhad y busnes a'r gallu i gyflawni yn erbyn fy nyletswyddau statudol yn wyneb materion annisgwyl ac anrhagweladwy.

Yn ystod 2021-22, yn unol â chyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys cyrff y Comisiynwyr eraill, newidiodd Llywodraeth Cymru fy swyddfa i gyllideb adnoddau, gan ddileu fy ngallu i reoli a defnyddio fy nghronfeydd wrth gefn yn annibynnol. Mae hyn yn golygu na allaf bellach ddelio â risgiau ariannol tymor canolig yn annibynnol ac rwy'n dibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol pan fo angen.

Mae'r newid hwn wedi arwain at fod Llywodraeth Cymru yn gosod rheolaethau llawer mwy caeth o safbwynt cyllidebu ac mae'n nawr yn angenrheidiol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod fy ngwariant yn cyd-fynd â'r gyllideb. Yn hanesyddol, os defnyddiwn fwy na'r gyllideb a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gallwn ddefnyddio'r arian wrth gefn i amsugno'r gwariant hwn.

Fel rhan o'r trefniadau ar gyfer gweithredu Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2021, hysbysodd swyddogion Llywodraeth Cymru fi y cydnabyddir bod tybiaethau cyllideb adnoddau cychwynnol sefydliad yn gallu newid yn ystod y flwyddyn. Fe'm hysbyswyd y ceir fel arfer ddau gyfle ffurfiol i ddiwygio cyllidebau yn ystod y flwyddyn – y gyllideb atodol gyntaf a'r ail. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion hefyd hyblygrwydd yn eu Prif Grwpiau Gwariant (MEG) i gytuno ar newidiadau i gynlluniau gwario gydol y flwyddyn ariannol, yn amodol ar fod tanwario yn digwydd yn rhywle arall yn eu MEG.

Os na all y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb dros gyllideb y Comisiynydd gytuno i'r adnoddau ychwanegol oherwydd nad oes digon o gapasiti yn y MEG, fe all y Gweinidog ofyn am gymorth ychwanegol drwy gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Caiff dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn eu ffurfioli yn y cyllidebau atodol, fodd bynnag, yn ddibynnol ar natur a brys y gofynion, gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.

Hyd yma, rwyf wedi delio â'r gyllideb adnoddau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac nid wyf wedi cyflawni gwaith sydd heb ei drefnu ac a fyddai angen mewnbwn ariannol ychwanegol sylweddol. Nid wyf felly wedi gofyn am addasiad yn ystod y flwyddyn i'n cyllideb adnoddau. Fodd bynnag, yn 2021/22 fe wnes i wneud cais, a chael, cyllid cyfalaf eithriadol o £45,000 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwefan newydd. Er bod y cais hwn am gyllid wedi cael ei brosesu a'u ddyfarnu cyn pen mis, nid oedd y cyllid yn ymwneud ag unrhyw fater cynhennus posibl. Rwy'n pryderu, pe byddwn yn gofyn am gyllid i wneud Adolygiad o weithredoedd Llywodraeth Cymru y gellid bod cryn oedi oherwydd prosesau Llywodraeth Cymru, ac fe allai hynny gael effaith negyddol ar ddarn o waith sy'n sensitif i amser.

Yn ogystal â cheisiadau'r gyllideb adnoddau, mae gofyn imi hefyd gyfiawnhau pa mor angenrheidiol yw pob pryniant cyfalaf wrth Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng achos busnes,

a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros fy holl wariant cyfalaf. Mae hyn, yn ymarferol, yn golygu bod rhaid imi geisio cymeradwyaeth a darparu cyfiawnhad ynglŷn â pham y byddwn i, er enghraifft, eisiau gwneud addasiadau i'r wefan neu'r system rheoli achosion neu brynu caledwedd TG isel ei werth. Rwy'n credu bod hyn yn rhoi i'm his-adran noddi lefel reolaeth amhriodol dros agweddau gweithredol ar fy ngwaith.

Rwy'n sylweddoli na fyddai darparu i sefydliad o'm maint i gyllideb gyfalaf gylchol sylweddol yn ffordd effeithiol o ddefnyddio adnoddau'r Llywodraeth oherwydd mae yna risg na fyddai'n cael ei defnyddio. Buaswn felly yn ddiolchgar pe byddai Llywodraeth Cymru yn darparu imi gyllideb gyfalaf gylchol o £10,000 pan gyflwynaf fy Amcangyfrif ar gyfer 2024/25.

Cyflwyno'r Amcangyfrif

Cwestiwn: Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 a'i Chyllideb Gymreig Aml-flwydd gyntaf er 2017. I ba raddau ydych chi a Llywodraeth Cymru yn symud at ddull 'Tymor Llywodraeth', gan gydymffurfio ar yr un pryd â'r gofyn statudol i gyflwyno amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o leiaf bum mis cyn y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Beth yw prif fanteision gwneud hyn.

Mae Amcangyfrifon sefydliad yn cynnwys cynllun ariannol tair blynedd, a fwriedir i hwyluso proses gynllunio Llywodraeth Cymru. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd dull aml-flwyddyn a chroesawais y symudiad at gynnwys cyllidebau dangosol i'r dyfodol yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Mae darparu cyllideb Tymor Llywodraethu yn rhoi imi'r cyfle i gynllunio'n effeithiol o un flwyddyn i'r nesaf, gyda graddau o sicrwydd ynglŷn â'r lefelau ariannu i'r dyfodol. Mae hyn yn galluogi imi sicrhau y gellir cynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni fy swyddogaethau statudol o un flwyddyn i'r nesaf, gan gynnwys cyflawni'r argymhellion a wnaed a'r canllawiau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Rwyf wedi neilltuo £80,000 ar gyfer cyflawni fy rhaglen waith flynyddol. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pwysigrwydd gallu plygu cyllideb y rhaglen waith hon a byddwn yn croesawu'r cyfle, pan fo fy ngwaith yn caniatáu, i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod tanwariant yn ystod y flwyddyn a bod yn gallu dyrannu'r gyllideb, drwy gyfrwng y peirianwaith cyfnewid cyllidebau, ar gyfer blynyddoedd ariannol i'r dyfodol.

4. Cydweithredu

Cwestiwn: diweddariad ar sut mae Comisiynwyr yn cydweithredu a'r manteision a geir o unrhyw gydweithio, yn ogystal ag unrhyw achosion o rannu staff a swyddogaethau swyddfa gefn. Unrhyw wersi a ddysgwyd oddi wrth y profiadau hyn: beth oedd yn gweithio'n dda; sut wnaethoch chi liniaru unrhyw risgiau ag atebolrwydd; pa arbedion a wnaethoch; a pham na wnaethoch barhau â'r cyfryw drefniadau o bosibl.

Manylion unrhyw achosion o rannu swyddogaethau neu staff â chyrrff cyhoeddus/cyrrff rheoleiddio eraill yng Nghymru.

Yn 2014-15, bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried cyfrifon detholiad o sefydliadau a ariennir gan drethdalwyr yng Nghymru, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynghyd â'r Comisiynwyr eraill ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn ei adroddiad ym Mawrth 2015, gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion y credent y

byddent yn gwella'r drefn llywodraethu, yn gwneud y trefniadau adrodd yn fwy tryloyw ac yn rhoi gwell gwerth am arian i drethdalwyr i'r dyfodol. Y prif argymhelliad sy'n berthnasol i'r dystiolaeth hon oedd bod 'ymdrechion i sicrhau arbedion a chynhyrchiant gwell drwy gydweithredu, gan gynnwys integreiddio swyddogaethau swyddfa gefn, yn parhau rhwng y Comisiynydd a'r Ombwdsmon.

Roedd dystiolaeth y Comisiynydd a'r Ombwdsmon i'r Pwyllgor yn dangos terfynau'r cyfryw weithgaredd, gan ddweud mai bach oedd yr arbedion posibl a bod gofyn statudol i gynnal atebolrwydd y ddwy Gorfforaeth Undyn. Dywedwyd na allai unrhyw ddull o rannu gwasanaethau danseilio cryfderau presennol y prosesau rheoli ariannol a llywodraethu mewnol ac y gallai mwy o gydweithredu gynyddu cynhyrchiant ac ychwanegu gwerth yn hytrach nac arwain at arbedion ariannol. Fe wnaeth y tri Chomisiynydd a'r Ombwdsmon ymrwymo i ganfod cyfleoedd i graffu ar y cyd er mwyn dangos gwerth am arian, rhannu sgiliau a gwybodaeth ac osgoi dyblygu ymdrechion. Croesawodd y Pwyllgor y dystiolaeth o gydweithredu yn ogystal â chyfleoedd posibl i gydweithredu i'r dyfodol. Yn benodol, argymhellodd y Pwyllgor fod y sefydliadau yn dysgu oddi wrth ei gilydd o ran y trefniadau ar gyfer gweinyddu eu swyddfeydd ac ymarfer eu swyddogaethau e.e. defnyddio'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Ym mis Rhagfyr 2014, fe wnaeth Dr Mike Shooter ar ran Llywodraeth Cymru lunio adroddiad a oedd yn adolygu rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru. Oherwydd ei argymhellion cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad ffurfiol o swyddogaethau swyddfa gefn y Comisiynwyr Cymreig annibynnol ar gyfer pobl hŷn, plant a chenedlaethau'r dyfodol.

Roedd adroddiad Llywodraeth Cymru '*Adolygiad o Gomisiynwyr Cymreig annibynnol dros Blant, Pobl Hŷn a Chenedlaethau'r Dyfodol o'u gwasanaethau cefnogaeth gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a sicrhau arbedion maint*' yn cydnabod 'er mai cymedrol oedd yr arbedion a gafwyd o'r adolygiad, bu'r dasg yn ddefnyddiol yn atgyfnerthu manteision gweithio'n gydweithredol, nid dim ond ymysg y Comisiynwyr ond hefyd ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Er bod y Comisiynwyr eisoes yn gweithio gyda'i gilydd, a gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru, mae'r adolygiad hwn wedi rhoi'r cyfle iddynt archwilio eu gwasanaethau cefnogi'n feirniadol, gyda'r fantais o gael mewnbwn annibynnol gan swyddogion a oedd yn cefnogi eu hadolygiad'.

Dros y blynyddoedd, bu ysbryd cydweithredu cryf ymysg y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon. Mae ein perthnasoedd gwaith yn ein galluogi i weld cyfleoedd i gydweithredu ar draws gwahanol feysydd gwaith. Caiff yr ymrwymiad i ddull cydweithredol ei ddangos yn y ffyrdd canlynol:

- y Comisiynwyr, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael cyfarfodydd ffurfiol yn rheolaidd i rannu rhaglenni gwaith sydd ar y gweill, i chwilio am gyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau;
- Memorandwm Dealltwriaeth ar y cyd rhwng y Comisiynwyr;
- trefniadau cyd-gaffael a rennir rhwng y Comisiynwyr a'r Ombwdsmon megis gwasanaeth archwilio mewnol yn 2016 a 2021;
- cyfarfodydd polisi ar lefel swyddogion i rannu cynlluniau gwaith, canfod meysydd ar gyfer cydweithredu a rhannau'r arferion gorau;
- rhannu polisiâu a gweithdrefnau sefydliadol;

- defnyddio adeilad fy swyddfa er mwyn i'r Comisiynydd Plant a'i staff allu defnyddio trefniadau gweithio desgiau poeth;
- gwaith ar y cyd â'r Comisiynydd Plant i greu hwb adnoddau pontio cenedlaethau i annog a helpu ysgolion a grwpiau o bobl hŷn i sefydlu grwpiau pontio cenedlaethau; a
- datganiadau ar y cyd gyda'r Comisiynydd Plant a'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar bontio cenedlaethau.

Mae'r dull cydweithredol hwn wedi galluogi fy staff i ddatblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda chydweithwyr yn swyddfeydd y Comisiynwyr eraill ac yn swyddfa'r Ombwdsmon, a drwy'r rhain maent yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi ei gilydd gyda meysydd Polisi, Llywodraethu a Chydymffurfio (sy'n cynnwys Cyllid, adnoddau dynol a TG). Mae'r cydweithredu hwn yn werthfawr dros ben gan ei fod yn rhoi cyfleoedd iddynt ymgysylltu a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Ochr yn ochr â chydweithredu rhwng Comisiynwyr, ceir rhwydweithiau a rennir yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n parhau i ddarparu cyfle i rannu gwybodaeth ar draws sector cyhoeddus Cymru ac sy'n caniatáu i'm staff elwa o beirianweithiau cefnogi cyfoedion anffurfiol.

Mae llawer o'r hyn rwyf wedi'i gyflawni ers dod yn Gomisiynydd yn 2018 wedi digwydd drwy weithio'n agos mewn partneriaeth â llawer o sefydliadau ac unigolion gwahanol ar draws Cymru. Mae'r ffordd hon o weithio wedi'i gwreiddio yn fy null gweithredu fel Comisiynydd, ac yn enwedig yn yr oes heriol sydd ohoni, dim ond drwy weithio gyda'n gilydd a defnyddio sgiliau a phrofiadau ein gilydd y byddwn yn gallu sicrhau cynnydd ac effaith gynaliadwy. I gydnabod yr angen inni weithio mewn partneriaeth rwyf wedi sefydlu'r gweithgorau canlynol:

- Grŵp Llywio a Grŵp Gweithredu yn erbyn Camdriniaeth, sy'n dwyn ynghyd bobl hŷn a dros 30 o sefydliadau
- Grŵp Cynghori ar gyfer Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i ddarparu arweiniad a chynghor arbenigol ar gasglu profiadau bywyd gan bobl hŷn Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Grŵp Hawliau Cartrefi Gofal sy'n cynnwys arbenigwyr o Gymru ac o bob cwr o'r Deyrnas Unedig i weithio gyda'i gilydd i wella hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal;
- Yn ychwanegol at y Gweithgorau hyn, mae fy swyddfa yn awr yn aelod cyswllt o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd o Gymunedau sydd o Blaid Pobl hŷn, sy'n annog ac yn helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i ymrwymo i fod o blaid pobl hŷn. I gefnogi hyn, rwyf wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth i ddatblygu, hyrwyddo a dylanwadu ar ymarfer a pholisïau sydd o blaid pobl hŷn ar draws Cymru, ynghyd â Chymuned Ymarfer er mwyn gallu rhannu gwersi a syniadau.

Rwy'n gweithio'n agos ag amrywiol gyrff cyhoeddus a chyrrff rheoleiddio yng Nghymru, drwy ddull gweithredu cyflenwol a drwy gyflawni gwaith ar y cyd os gall hyn gynyddu effaith. Er enghraifft, bŵm yn gweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar hawliau pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac rwyf wedi cynhyrchu adnoddau ar y cyd ag elusennau a chyrrff cyhoeddus eraill, megis cynghor ar Atwrneiaeth Arhosol gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu a'r gwir fanteision a geir drwy weithio fel hyn, ychydig iawn o arbedion costau y gellir eu gwneud i'm sefydliad i, fel y cydnabu'r

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2015 a Llywodraeth Cymru yn 2016.

Rwy'n gweithredu dull 'un tîm' ac yn osgoi sefyllfa lle bo un unigolyn yn gweithio ar ei ben ei hun. Mewn sefydliadau bach, mae hyblygrwydd yn hanfodol i bob gweithiwr. O'r herwydd, nid oes gwahaniaeth pendant i'w gael rhwng 'swyddogaethau swyddfa gefn' a meysydd eraill. Er enghraifft, mae'r holl staff yn cyfrannu at y broses o lunio'r rhaglen waith, gan gymryd rhan mewn sesiynau dysgu a datblygu, ac ymgysylltu â phobl hŷn. Mae hyn yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni ar gyfer pobl hŷn a sut mae pob aelod staff yn cyfrannu at hyn, yn ogystal â gwerthoedd sefydliadol a rennir.

Rwy'n asesu hyfywedd pob swydd yn fy strwythur sefydliadol yn barhaus a phan fo gweithwyr yn ymddiswyddo, yn hytrach na hysbysebu'r swydd wag ar unwaith, mae fy Nhîm Rheoli Busnes a minnau yn asesu a yw'r sefydliad angen y swydd a pha mor fforddiadwy yw ei llenwi yn y tymor canolig, er mwyn sicrhau bod pob swydd yn dal i roi gwerth am arian i'r sefydliad.

Byddwn yn croesawu unrhyw gyfle i ystyried dewisiadau o ran cydwasanaethau sy'n cael eu hystyried gan y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai angen i'r dewisiadau hyn sicrhau nad yw newidiadau ac arbedion costau yn peryglu fy annibyniaeth a'm heffeithiolrwydd gweithredol.

5. Sefyllfa ariannol bresennol a heriau i'r dyfodol

Cwestiwn: Asesiad o sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad ynghyd ag asesiad o anghenion i'r dyfodol yng nghyd-destun y pwysau ar arian cyhoeddus.

Ym mis Rhagfyr 2022, croesewais gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r pwysau ariannol difrifol a wynebwn a'r cynnydd dilynol yng nghyllideb sylfaenol 2023/24 i £1,684,000. Fe wnaeth y cynnydd mewn cyllid sicrhau, yn y tymor byr, nad oedd raid imi ystyried ad-drefnu'r sefydliad ac y gallwn ddyrannu £80,000 i'm rhaglen waith. Yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, croesewais hefyd y gyllideb ddangosol a ddarparwyd ar gyfer 2024/25, gan ei bod yn galluogi imi gynllunio dros y tymor canolig.

Gwnaed y cynnydd yn fy nghyllideb sylfaenol i gydnabod y pwysau ar y gyllideb yn sgil y pwysau diweddar oddi wrth chwyddiant a gofynion llywodraethu mwy cymhleth. Rwyf wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru y dylwn fod yn gallu rheoli'r gyllideb hon dros y tymor byr. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu imi arian ychwanegol ar gyfer 2023/24, rwy'n dal i ragweld diffyg o £12,000 yn y gyllideb. Wrth i'r flwyddyn ariannol nesaf fynd rhagddi, drwy reolaeth ariannol effeithiol, rwy'n rhagweld y byddaf yn gallu nodi meysydd gwariant lle byddaf yn gwneud arbedion yn erbyn y gyllideb ragamcanol i sicrhau nad wyf yn mynd dros gyfanswm rheoli'r gyllideb adnoddau.

Roedd yr Amcangyfrif a gyflwynais yn seiliedig ar roi dyfarniad costau byw o 3% i'm staff yn 2023/24. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu canran fwy, bydd disgwyl imi ddyfarnu'r un faint. Gan mai costau staff sydd i gyfrif am 77% o'm gwariant, mae gwahaniaeth o 1% yn cyfateb i £15,000. Ni allaf ragweld ar hyn o bryd lle byddaf yn gallu gwneud arbedion er mwyn rhoi dyfarniad cyflog cyfatebol. Mae'n amlwg, os bydd chwyddiant yn dal i gael yr un effaith yn 2023/24 ag a gafodd yn ystod y flwyddyn diwethaf, yna nid oes digon o hyblygrwydd yn fy nghyllideb a fydd yn caniatáu imi amsugno pwysau'r costau hyn; byddaf

felly yn cael fy ngorfodi unwaith eto i ofyn am arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio â'r pwysau oherwydd chwyddiant.

Rhodddwyd y cynnydd diweddar yn fy nghyllideb sylfaenol i gydnabod y pwysau ar gyllidebau oherwydd chwyddiant a gofynion llywodraethu mwy cymhleth, yn hytrach nag i gydnabod y cynnydd yn nifer y bobl hŷn sydd i'w cael yng Nghymru a'r materion cynyddol gymhleth y mae angen rhoi sylw iddynt.

Yn 2008, darparwyd cyllid Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar y sail bod 18% o'r boblogaeth dros 60 oed. Mae cyfrifiad 2021 yn dangos bod 23.5% o'r boblogaeth dros 60 oed, sy'n gynnydd o 30%. Pe byddai fy nghyllid wedi dilyn taflwybr tebyg a chael ei haddasu ar gyfer chwyddiant hefyd, byddai fy nghyllideb sylfaenol 2023/24 yn £2,910,000.

Mae fy mhwerau dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn caniatáu imi roi cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy gyfrwng fy nhîm cyngor a chymorth arbenigol. Mae'r tîm yn darparu gwybodaeth, cymorth ac arweiniad i rymuso pobl hŷn a'u teuluoedd a'u helpu i ddeall a hawlio eu hawliau. Mae hyn yn rhan greiddiol o fy rôl fel Comisiynydd ac mae'n faes sy'n cael effaith arwyddocaol ar unigolion hŷn a'u teuluoedd, yn ogystal â darparu llawer iawn o dystiolaeth sy'n rhoi sail i argymhellion ynghylch polisi ac arferion.

Mae'r gefnogaeth a roddir yn galluogi pobl hŷn a'u teuluoedd i herio penderfyniadau ac ymarfer gwasanaethau a chyrrff cyhoeddus, ac mae'r tîm yn gallu delio â systemau, polisiâu a phrosesau sy'n aml yn gymhleth, a hynny'n aml yn yr amgylchiadau mwyaf anodd a gofidus. Mewn rhai achosion, mae'r tîm yn ymyrryd ar ran person hŷn (os rhoddant eu cydsyniad).

Tra bo'r tîm yn delio'n effeithiol â swmp a chymhlethdod yr ymholiadau a ddaw i law, mae adnoddau'n dal i gael eu hystyngtu i'r eithaf. Gyda mwy o adnoddau byddwn yn gallu cynyddu'r capasiti yn fy nhîm cyngor a chymorth er mwyn bodloni'r galw'n well a chynorthwyo rhagor o bobl hŷn sydd angen cefnogaeth.

Effaith newidiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrrff Dynodedig)

Cwestiwn: Effaith dynodiad eich swyddfa dan y newidiadau yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrrff Dynodedig) 2018 ar eich sefyllfa ariannol bresennol ac i'r dyfodol. Beth oedd y prif heriau wrth symud i'r trefniadau newydd a beth yn eich barn chi yw'r newid(iadau) mwyaf arwyddocaol o ganlyniad.

Mae sawl her wedi codi yn sgil gweithredu newidiadau Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrrff Dynodedig) 2021, y rhoddir sylw iddynt yn y papur hwn drwyddo draw, ac mae pob un wedi deillio o'r gofyniad i mi beidio â thorri cyfansymiau rheoli cyllidebol. Mae hwn wedi bod yn newid sylweddol yn ymarferol oherwydd, yn hanesyddol, rwyf wedi gallu defnyddio fy nghronfeydd wrth gefn heb geisio cyllideb adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n holl bwysig nad wyf yn mynd dros y cyfansymiau sy'n rheoli cyllidebau. Yn unol â'm dyletswyddau statudol, efallai byddai angen imi wneud darn o waith brys a heb ei drefnu, er enghraifft adolygiad cyfreithiol a bydd yn gofyn am lawer iawn o adnoddau. Bryd hynny,

efallai byddai'n rhaid imi ofyn am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd, os yw'r adolygiad cyfreithiol yn cwmpasu gweithredoedd y Gweinidog sy'n gyfrifol am y dyraniad blynyddol o gyllid craidd y Comisiynydd, y ceisir cyngor gan y Prif Weinidog er mwyn sicrhau na chyfyd achos o wrthdrawiad buddiannau. Yn yr amgylchiadau hyn, fe allai fod yn briodol i'r Prif Weinidog (neu Weinidog arall) wneud y penderfyniad ynglŷn â dyfarnu unrhyw gyllid at y diben penodol hwn. Caf fy hysbysu os cafodd penderfyniadau eu cyfeirio at Weinidog arall, a chaf glywed y canlyniad cyn gynted â phosibl.

Fe'm hysbyswyd mai Gweinidogion Cymru yn unig, o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol, sydd â'r pŵer i gymeradwyo lefel y cyllid sector cyhoeddus ar gyfer Comisiynwyr ac y bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn osgoi gwrthdrawiad buddiannau wrth ystyried ceisiadau am gyllid, yn enwedig os yw'r ceisiadau yn ymwneud â chyllid ar gyfer cynnal adolygiadau i feysydd y mae Gweinidogion yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, rwy'n credu bod perygl o hyd y gallai gwrthdrawiad buddiannau posibl ddigwydd, ond rwy'n sylweddoli bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu mesurau lliniaru i leihau'r perygl.

1 Gwerthusiad Rheoleiddio LIC - Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) 2007

2 ONS, 2008, Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, [Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

3 ONS, 2022, Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, [Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon - y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

4 ONS, 2022, Prif amcanestyniad – poblogaeth Cymru mewn grwpiau oedran, [Prif amcanestyniad - Poblogaeth Cymru mewn grwpiau oedran- y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](https://ons.gov.uk)

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn hyrwyddwr ac yn llais annibynnol dros bobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i warchod hawliau pobl hŷn, i roi diwedd ar ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, i roi diwedd ar gamdriniaeth yn erbyn pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio dros Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle cadarnheir eu hawliau a lle na chaiff neb ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adeiladau Cambrian

Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd

CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

e-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru